CHAPTER

Tywysydd Gwirfoddol

Cefndir

Mae Chapter yn fan cyfarfod ar gyfer celfyddyd, cynulleidfaoedd, arloesi a syniadau. Fe agorom ni ein drysau ym 1971 â'r nod o ddwyn perfformiad, ffilm ac arddangosfeydd at ei gilydd o dan yr un to, mewn gofod cymdeithasol deinamig. Dros ddeugain mlynedd yn ddiweddarach, mae'r ganolfan yn cael ei chydnabod fel un o'r lleoliadau celfyddydol amlddisgyblaethol mwyaf llwyddiannus yn Ewrop.

Rydym yn canolbwyntio ar ddatblygu diwylliant cyfoes, meithrin doniau newydd a galluogi i'r cyhoedd ymwneud â'r celfyddydau. Rydym hefyd yn chwarae rhan ganolog o ran gosod Caerdydd a Chymru ar y map diwylliannol rhyngwladol. Mewn geiriau eraill, rydym yn danbaid o blaid y celfyddydau ac yn awyddus i roi'r gair ar led. Mae gweithgareddau Chapter yn cynnwys comisiynu, cynhyrchu, cyflwyno a chefnogi pob ffurf ar gelfyddyd, gan gynnwys perfformiadau byw, sinema a'r celfyddydau gweledol. Mae gennym ddwy theatr, dwy sinema ac oriel. Mae Chapter hefyd yn darparu gwasanaethau swyddfa a gofod cynhyrchu i artistiaid a sefydliadau sy'n gweithio yn y byd diwylliannol.

Mae canolfan Chapter yn adnabyddus am y mannau agored sydd ar gael i'n holl ddefnyddwyr amrywiol a'r cyfuniad o waith newydd radical sy'n bodoli ar y cyd â'n defnyddwyr cymunedol niferus. Mae gennym ymrwymiad cymdeithasol cryf i egwyddorion fel amrywiaeth, eangfrydedd, galluogi, anffurfioldeb a goddefgarwch.

Rydym yn croesawu dros 750,000 o ymwelwyr bob blwyddyn ac mae ein holl leoedd yn brysur bob dydd o'r wythnos o 8.30am tan yn hwyr, am 362 diwrnod bob blwyddyn. Ategir ein rhaglen gelfyddydol gan gymysgedd fywiog o weithgarwch - o grwpiau darllen i feddygfeydd cyfryngau cymdeithasol, o grwpiau rhieni a phlant i wersi dawnsio.

Rydym yn elusen annibynnol, yn gwmni cyfyngedig trwy warant ac yn un o'r mentrau cymdeithasol mwyaf yng Nghymru. Mae ein caffi-bar yn cael ei weithredu gan is-gwmni masnachol, sydd wrth galon ein gofod cymdeithasol croesawgar.

Felly, ar y naill law rydym yn ganolfan gelfyddydol flaengar sy'n gosod agenda newydd ar gyfer celfyddyd yn ei holl ffurfiau ac, ar y llaw arall, rydym yn fan cyfeillgar lle gall pobl eistedd a sgwrsio, a theimlo'n gartrefol. Mae Chapter yn llawn o bobl angerddol, boed hynny dros greu gwaith arbennig, sicrhau bod ein cynulleidfaoedd yn cael amser gwirioneddol arbennig yma neu weini cappuccino gorau'r ddinas.

Mae cyfraniad gwirfoddolwyr at ein rhaglen yn hanfodol - maent yn rhoi o'u hamser a'u sgiliau i helpu Chapter. Yn gyfnewid, gallwn gynnig cyfleoedd i weld perfformiadau theatr a ffilmiau, cyfleoedd i dderbyn hyfforddiant mewn gwahanol agweddau ar y rôl ac i fod yn rhan o gymuned Chapter.

Teitl y Swydd: Tywysydd Gwirfoddol - Blaen y Tŷ

Pwrpas y swydd: Helpu i sicrhau gweithrediadau blaen y tŷ, gan sicrhau bod yr ymwelydd wrth galon ein gwaith a chyfrannu at brofiad o safon uchel i'n hymwelwyr. Byddwch yn cyflawni dyletswyddau tywysydd a marsial tân ar ran sinemâu a theatrau Chapter.

Prif gyfrifoldebau:

Fel tywysydd gwirfoddol, rydych yn rhan annatod o brofiad defnyddwyr Chapter a byddwch yn chwarae rhan hanfodol yn llwyddiant y ganolfan. Fel tywysydd gwirfoddol, bydd gofyn i chi wneud y canlynol:

- Darparu gofal o safon ardderchog i ymwelwyr, gan sicrhau bod ymwelwyr yn cael eu croesawu mewn modd cyfeillgar a darparu cymorth yn unol â'u hanghenion unigol.
- Cynrychioli Chapter mewn modd proffesiynol, gwybodus a chyfeillgar, a throsglwyddo sylwadau, canmoliaeth a chwynion ymwelwyr i aelodau o staff.
- Dilyn gweithdrefnau tân a iechyd a diogelwch er mwyn sicrhau bod yr holl fannau cyhoeddus yn ddiogel i ymwelwyr a bod yr holl fannau'n lân ac yn daclus.
- Gwirio tocynnau ymwelwyr, gan sicrhau eu bod yn y man cywir ar y diwrnod cywir ac ar yr adeg gywir, a'u helpu nhw i ddod o hyd i sedd briodol.
- Ymateb i anghenion y gynulleidfa yn ystod perfformiad a sicrhau bod unrhyw aflonyddwch posib yn cael ei osgoi neu ei atal, ee gofyn i unigolion i beidio â defnyddio ffônau symudol neu fwyta / yfed yn ystod perfformiad.
- Gweithio ar y cyd â'r tîm technegol er mwyn sicrhau'r profiad gorau posib i gynulleidfaoedd, ee monitro tymheredd a'r llun a'r sain yn yr awditoriwm er mwyn sicrhau ansawdd y rhaglen.
- Dilyn gweithdrefnau brys sefydledig mewn argyfwng a gweithio gyda thîm blaen y tŷ i wacau'r awditoriwm
- Rheoli llif yr ymwelwyr ar adegau prysur, gan sicrhau'r defnydd gorau posib o fannau a chyfleusterau er mwyn lleihau ciwiau.
- Cynorthwyo â digwyddiadau ym mlaen y tŷ, yn y theatr a'r sinema, gan gynnwys cynadleddau a digwyddiadau preifat.
- Gweithio ar y cyd â thîm blaen y tŷ i sicrhau gwasanaeth cyson a di-dor i ymwelwyr.

Atebol i: Rheolwr Blaen Tŷ a Swyddog Cymorth Blaen y Tŷ.

Oriau: Shifftiau'n amrywio o 3.5 i 6 awr o hyd. Shifftiau gyda'r nos ac ar benwythnosau fydd y rhain gan mwyaf, ynghyd ag ambell shifft yn ystod y dydd (prynhawniau).

Ymrwymiad: Gofynnwn i'n tywyswyr gwirfoddol gytuno i weithio o leiaf 1-2 o shifftiau bob mis.

Pam gwirfoddoli gyda Chapter?

- Gostyngiad o 10% yn ein caffi / bar;
- Dau docyn rhad ac am ddim i'r sinema bob mis;
- Profiad gwerthfawr o ddigwyddiadau byw;
- Gweithio ar y cyd â staff proffesiynol Chapter a datblygu rhwydwaith o gysylltiadau;
- Manteisio ar hyfforddiant gofal cwsmeriaid a iechyd a diogelwch;

- Derbyn cefnogaeth gan staff Chapter i ymwneud â chyfleoedd gwirfoddol, hyfforddiant neu gyflogaeth pellach yn niwydiant creadigol a diwylliannol ffyniannus dinas Caerdydd;
- Cymorth i wneud cais am achrediad gwirfoddolwr, yn ddibynnol ar gyllid.

Nodwch os gwelwch yn dda bod buddion gwirfoddolwyr yn destun telerau ac amodau ac y